**ATODIAD 1**

# TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2019/20 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2019/20<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ | - *nifer* | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ | - *nifer* | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,522,150 | 1,522,150 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Ysgolion | 4,037,000 | 4,037,000 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 2,467,783 | 2,430,283 | 37,500 | *1* | - | | Llithriad ar y cynllun *Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* gwerth £37.5k yn 2019/20. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 2,094,628 | 2,094,628 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 1,585,906 | 1,585,906 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 2,713,012 | 2,670,512 | 42,500 | *3* | - | | Bu llithriad gyda 2 gynllun *Cysoni trefniadau/adolygu ffioedd parcio* gwerth cyfanswm o £30k a *Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata* £12.5k. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 6,385,641 | 6,013,641 | 48,000 | *2* | 324,000 | *4* | Mae'r cynllun *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran* wedi ei gyflawni'n rhannol ac er mwyn cwrdd â'r diffyg o £64k, mae angen ystyried os oes modd cyflawni'r arbediad trwy ddulliau amgen. O ran y cynllun *Integreiddio a Thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn* mae £210k o darged yn 2019/20 ac mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr her barhaus o'i gyflawni. Bu llithriad ar 2 gynllun sef *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* (£30k) ac *Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu* (£18k). Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun pellach sef *Cydweithio â'r trydydd sector i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog* (£25k) ac *Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen* (£25k) ond mae'r Adran yn gweithio i symud ymlaen gyda rhain. |

**ATODIAD 1**

# TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2019/20 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2019/20<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,204,488 | 2,204,488 | - | | - | | Bu i Cabinet 26 Ionawr 2021 gymeradwyo dileu targed arbedion cynllun *Dechrau i'r Diwedd* gwerth £370k hyd at ddiwedd 2019/20. Mae gweddill y cynlluniau wedi eu gwireddu. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 5,308,720 | 5,100,720 | 45,000 | *2* | 163,000 | *2* | Mae risg na fydd yr arbedion o'r cynllun *Trefniadau Fflyd* yn cael eu cyflawni yn llawn bellach ac mae'n debygol bydd rhaid edrych am gynlluniau amgen i gwrdd â rhan o'r targed (£133k yn 2019/20). Yn ogystal mae £30k o arbedion 2019/20 ar y cynllun *Newid Trefniadau Canolfannau Ailgylchu* ble mae'r Adran yn edrych ar effaith trefn newydd yn y Canolfannau. Bu oediad gyda 2 gynllun arall ond mae rhain bellach yn symud yn eu blaen. |
| Ymgynghoriaeth | 513,500 | 513,500 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 367,380 | 353,580 | 13,800 | *1* | - | | Mae llithriad ar y cynllun *Arbedion yng nghyllideb y Crwner* gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd eto heb ddigwydd. |
| Tai ac Eiddo | 436,100 | 436,100 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **Is-gyfanswm** | **29,636,308** | **28,962,508** | **186,800** | *9* | **487,000** | *6* | |
| Arbedion Rheolaethol | 1,200,360 | 1,200,360 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **30,836,668** | **30,162,868** | **186,800** | *9* | **487,000** | *6* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2019/20 wedi eu gwireddu.** |